**Dyddiad cyhoeddi** Mehefin 2011

## Deall canllawiau NICE

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

# Llawdriniaeth twll clo i dynnu nodau lymff yn y werddyr i drin canser

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo i dynnu nodau lymff yn y werddyr yn y GIG i drin canser. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio canser na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Corporate member of Plain English Campaign. 197 Committed to clearer communication.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg am ddefnyddio llawdriniaeth twll clo i dynnu nodau lymff yn y werddyr i drin canser, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd ynglŷn â'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Dim ond canolfannau sy'n arbenigo mewn tynnu nodau lymff yn y werddyr ar gyfer cleifion â chanser a ddylai gyflawni'r llawdriniaeth, a dim ond llawfeddygon â hyfforddiant a phrofiad o'r math hwn o lawdriniaeth twll clo.

Efallai y bydd NICE yn edrych ar y driniaeth hon eto os daw rhagor o wybodaeth i law.

### Sylwadau eraill gan NICE

Gallai'r driniaeth arwain at lai o broblemau na llawdriniaeth agored. Fodd bynnag, ni chaiff ei chyflawni'n aml felly gall fod yn anodd cymharu'r llawdriniaethau.

## Llawdriniaeth twll clo i dynnu nodau lymff yn y werddyr

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer canser. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘lymffadenectomi radical endosgopig arffedol'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Gall fod angen tynnu'r nodau lymff yng ngwerddyr pobl â chanser y penis, y fwlfa neu'r anws, neu â melanoma'r goes, fel rhan o'u triniaeth. Fel arfer cyflawnir hyn gan ddefnyddio llawdriniaeth 'agored' drwy doriad yn y werddyr.

Gwneir y llawdriniaeth twll clo hon tra bod y claf o dan anesthetig cyffredinol. Caiff y nodau lymff eu tynnu gan ddefnyddio offer arbennig a osodir drwy dri neu bedwar toriad bach. Fel arfer gosodir draeniau sugno ar ddiwedd y llawdriniaeth i dynnu hylif.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig llawdriniaeth twll clo i chi i dynnu nodau lymff yn y werddyr i drin canser, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cynnal y llawdriniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r llawdriniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y llawdriniaeth hon.  Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i'w thrafod gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal fydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth all ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o'r manteision a'r risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwech astudiaeth o'r llawdriniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r llawdriniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o bum claf a gafodd y llawdriniaeth twll clo fod y canser wedi dychwelyd mewn dau glaf. Cafodd un ohonynt sawl canser eilaidd a chafodd y llall ganser mewn nod lymff y tu allan i'r werddyr a gafodd ei dynnu'n ddiweddarach.

Nododd astudiaeth o 15 o gleifion, lle cafodd 10 claf y llawdriniaeth twll clo ar un ochr o'r werddyr a llawdriniaeth agored ar yr ochr arall, a chafodd pump claf lawdriniaeth twll clo ar y ddwy ochr, fod 11 nod lymff wedi'u tynnu yn ystod y llawdriniaeth twll clo a 10 nod lymff wedi'u tynnu yn ystod y llawdriniaeth agored ar gyfartaledd. Arhosodd y 10 claf a gafodd lawdriniaeth agored a thwll clo yn yr ysbyty am tua chwe niwrnod ar gyfartaledd gan gymryd 21 diwrnod i ddychwelyd i'w gweithgareddau arferol. Arhosodd y pump a gafodd y lawdriniaeth twll clo ar y ddwy ochr yn yr ysbyty am 24 awr ar gyfartaledd gan gymryd 14 diwrnod i ddychwelyd i'w gweithgareddau arferol. Tynnwyd y draeniau yn gynt ar ôl y llawdriniaeth twll clo (ar ôl pump diwrnod) na'r llawdriniaeth agored (chwe niwrnod).

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gellir asesu llwyddiant yn ôl hyd yr arhosiad yn yr ysbyty a'r amser a gymerir i wella'n llwyr, p'un a oes angen llawdriniaeth agored i gwblhau'r driniaeth, p'un a dynnir y nodau lymff yn ddigonol a ph'un a yw'r canser yn dychwelyd.

## Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 15 o gleifion, nodwyd problemau lymff ar ôl dau allan o'r 20 o lawdriniaethau twll clo ac ar ôl dau allan o'r 10 o lawdriniaethau agored yn ystod y 32 mis dilynol. Yn achos un claf a gafodd y llawdriniaeth twll clo, gwelwyd hylif lymff yn gollwng drwy'r croen a datblygodd claf arall systiau (hylif lymff yn cronni o dan y croen) yr oedd angen eu trin. Gwelwyd coes un claf a gafodd y llawdriniaeth agored yn chwyddo am gyfnod hir a hynny'n gysylltiedig â'r system lymffatig (lymffoedema), a chafodd claf arall syst a wellodd heb ei drin. Nododd astudiaeth bellach o wyth claf y cafodd dri systiau.

Yn yr astudiaeth o 15 o gleifion, gwelwyd problemau â'r croen ar ôl un llawdriniaeth twll clo a phum llawdriniaeth agored. Nododd yr astudiaeth o bum claf y cafodd dau glaf haint ar y croen (llid yr isgroen), ac roedd un ohonynt wedi cael haint difrifol ar ôl llawdriniaeth nod lymff blaenorol. Mewn astudiaeth o 16 o gleifion, nodwyd achosion o fflap y croen yn ymddatod (necrosis) yn lleoliad y llawdriniaeth mewn un allan o 16 o lawdriniaethau twll clo a gynhaliwyd ar wyth claf, ac mewn saith allan o 16 o driniaethau agored a gynhaliwyd ar wyth claf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod problemau posibl yn cynnwys niwed i nerfau a phibellau gwaed yn y clun, y canser yn ymledu drwy doriadau'r llawdriniaeth, swigod o nwy yn y llif gwaed a phroblemau o ganlyniad i niwed i'r system lymffatig.

## Rhagor o wybodaeth am ganser

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ganser, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gyflyrau meddygol gwahanol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Lymffadenectomi radical endosgopig arffedol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG265*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon gan adran gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N2574). Mae gan wefan NICE wasanaeth darllen sgrîn a elwir yn Browsealoud sy'n eich galluogi i wrando ar ein canllawiau. Cliciwch ar logo Browsealoud ar wefan NICE i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8440-4
N2574 POD 1P Mehefin 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.